*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Gorffennaf 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwy** |
| Pwnc | **Diweddariad ar yr Adolygiad Diwylliannol Annibynnol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) y Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol drafft i'w gymeradwyo a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd hyd yma ar daith ddiwylliannol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ar 5 Chwefror 2025, cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr adolygiad diwylliannol a gynhaliwyd gan Crest Advisory ac fe'i cyflwynwyd i Banel Gweithredol yr Awdurdod ar 17 Mawrth 2025. Ers 17 Mawrth 2025, mae Crest Advisory wedi gwneud cyflwyniadau i Aelodau'r Awdurdod, i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, i Arweinwyr Canol, ac mewn digwyddiadau sydd wedi bod yn agored i bob gweithiwr, yn ogystal ag i swyddogion Llywodraeth Cymru ar 11 Mawrth 2025.

3 Mae'r papur hwn yn bapur cynnydd ac yn cyflwyno'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol i'w gymeradwyo.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Archwiliodd y Panel Gweithredol y Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol ar 16 Mehefin 2025 a'i argymell i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

**ARGYMHELLIAD**

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Cymeradwyo'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol; ac yn**
**ii) nodi'r camau nesaf ar daith ddiwylliannol GTAGC.**

**CEFNDIR**

6 Er ei fod yn cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud, mae'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol yn targedu materion fel diffyg atebolrwydd a thryloywder ymhlith rhai arweinwyr. Mae'n cynnig camau pendant i gryfhau ymddiriedaeth, sicrhau tegwch wrth recriwtio a dyrchafu, a buddsoddi mewn datblygu staff.

7 Mae'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol hwn hefyd yn anelu at feithrin gweithlu amrywiol a chynhwysol, gwella iechyd, diogelwch a lles, a gwella'r ffordd o ymdrin â chamymddwyn a chŵynion cyflogaeth er mwyn adeiladu ar welliannau a wnaed eisoes a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n weddill.

8 Mae'n anelu at gydnabod, er bod y diwylliant wedi gwella ers mis Mehefin 2021 gyda phenodi'r Prif Swyddog Tân (PST) presennol, bod ymddygiadau negyddol ymhlith lleiafrif o staff yn dal i rwystro newid cadarnhaol.

**GWYBODAETH – CAMAU GWEITHREDU A GWBLHAWYD HYD YMA**

9 Yn dilyn ymchwil helaeth, rhoddwyd cymeradwyaeth gan Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i ddechrau cyflwyno arfarniadau 360. Bydd hyn yn dechrau gyda Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2025.

10 Cyfarfu'r PST â Bron Biddle o Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwlans ar 2 Mehefin 2025. Diben y cyfarfod oedd archwilio’r posibilrwydd o gyflwyno gweithdy o'r enw "The Wolf We feed", a chytuno ar hynny.

11 Cafodd deugain o arweinwyr uwch a chanol ddiwrnod llawn o hyfforddiant ardderchog "Disgyblaeth a Chŵynion Cyflogaeth" a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

12 Mae'r Gwasanaeth wedi ailosod y contract ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol.

13 Mae'r Gwasanaeth wedi ysgogi taith canfod ffeithiau i Wasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaerloyw, sydd wedi gwneud cynnydd sylweddol ar eu taith ddiwylliannol eu hunain ac wedi cyflogi arbenigwr diwylliannol allanol ar gontract 12 mis. Un peth sydd o ddiddordeb yw darparu offeryn dangosfwrdd a all helpu i olrhain cynnydd unrhyw newid diwylliannol sy’n cael ei weithredu dros gyfnod penodol.

14 Adolygwyd a thrafodwyd y Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol yn ystod Seminar yr Arweinwyr Canol a gynhaliwyd yn Venue Cymru ar 11 Mehefin 2025.

15 Yn ystod y broses ddiweddar o ddethol PSTC, sefydlwyd panel rhanddeiliaid gyda'r holl gyrff cynrychioliadol wedi'u gwahodd i gwrdd â'r ymgeiswyr ar y rhestr fer.

16 Yn dilyn proses yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys, mae Cytundeb Cydweithredol bellach wedi'i lofnodi rhwng Undeb y Brigadau Tân a'r Gwasanaeth, sy'n ceisio gwella darpariaeth ymateb i danau mewn ardaloedd gwledig a chynyddu gwydnwch. Mae'r Cydgytundeb hefyd wedi'i gymeradwyo gan Undeb y Brigadau Tân ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

17 Cynhaliwyd adolygiad o absenoldeb iechyd meddwl a darpariaeth gwasanaeth y Gwasanaeth mewn cyfarfod anffurfiol o Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth ar 18 Mehefin 2025, yn ogystal â sawl adolygiad polisi sy'n cefnogi'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol i fodloni argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- Polisi Rheoli Cwynion
- Absenoldeb sy'n ystyriol o Deuluoedd
- Polisi Datrys Cwynion Cyflogaeth
- Polisi Menopos
- Polisi Galluogrwydd
- Gweithdrefn Absenoldeb Maethu.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Lles<br>Amcanion | Gallai peidio â mynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd gan yr adolygiad effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol. |
| Cyllideb | O fewn cyllidebau presennol ar hyn o bryd |
| Cyfreithiol | Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/<br>Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae'r adroddiad yn nodi gwelliannau cadarnhaol a phethau sy'n peri pryder. Rhaid mynd i'r afael â'r pryderon i sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i fod yn gyflogwr o ddewis ac yn gallu denu talent i ddarparu gwasanaethau o safon. |